# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 15 Gorffennaf 2025.

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** – Guto Rhys Huws, Ken Williams, Rhys Jones, Iwan Williams,

**<u>Presennol</u> –** Aaron Hughes (cadeirydd), Eleri Owen, Eirian Allport, Eifion Jones, Thomas Williams, Elias Jones, Gwenno Griffiths, Sion Tomos a'r Cyng. Dafydd Davies.

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 17 Mehefin 2025</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Eirian Allport fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - E-bost wedi ei dderbyn gan Sara Evans yn hysbysu nad yw yn awgrymu i werthu'r tir. Darllen yr e-bost i bawb. Sara wedi rhoi rhestr o sut ellid parhau a beth i wneud nesaf. Trafod y mater a sut i barhau. Cynnig i gario mlaen gyda phethau.

2. Mainc Aberdesach - wedi cael gair hefo Sïon Tomos ac am wneud anfoneb erbyn y penwythnos.

3. Mynediad i'r fynwent – gofyn i Sara Evans, cyfreithwraig y Cyngor Cymuned am ddiweddariad hefo hyn er mwyn cael symud ymlaen.

4. Pont bren Tai Lôn - dal heb ei orffen, adroddwyd ei bod ar raglen waith Cyngor Gwynedd. Cyng. Dafydd Davies am gael gair gyda swyddog Cyngor Gwynedd am hyn.

5. Coed Aberdesach –

6. Arwydd cyflymder - wedi derbyn pris am arwydd arall i Bontllyfni. I'w gael yn rhatach na'r diwethaf. Cynigwyd ac eiliwyd i brynu'r arwydd. Cytunwyd yn unfrydol.

7. Deffibs - wedi eu checio ag yn iawn. Golau yn deffib ddim yn gweithio. Angen gofyn i drydanwr ddod i edrych arno - y clerc i sortio hyn cyn gynted â phosib.

8. Biniau - disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd am gael y rhain. Y clerc i ddilyn fyny ar y mater.

9. Llwybr Lan Môr - canclwm yn dew ac angen gwneud rhywbeth i'w waredu. Trafod sut i symud ymlaen gyda hyn. Clerc i holi Dafydd Thomas, Pwyllgor Ardal Nebo.

10. Llwybr o Bryscyni Ganol i Bryscyni Uchaf – wal wedi disgyn i'r llwybr ac angen edrych arno – clerc wedi gyrru at Dewi Owen disgwyl am ymateb.

11. Pontllyfni - manhole BT - wedi cysylltu â chwmni Griffiths ond heb gael ymateb. Angen mynd drwy BT i weld.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………

12. Clwb Ieuenctid a chais grant Gwynedd Ni - trafodwyd a chynigwyd bod Eirian Allport a phwyllgor y neuadd yn llenwi'r ffurflenni er mwyn ceisio am y grant hwn i ddechrau clwb ieuenctid yn y pentref.

13. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi - cynnig i ofyn i Dîm Tacluso ddod i wneud y gwaith. Cyng. Dafydd Davies am gysylltu â nhw am hyn.

**5. Ceisiadau cynllunio** - C25/0496/34/LL codi annedd newydd ar dir ger Penlon, Clynnog Fawr - DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 28 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £32.68 |
| Cyfrif cyfredol | £20895.13 |

B) Archwiliad mewnol - aethpwyd drwy'r adroddiad a chytuno i fonitro a gweithio ar yr argymhellion. Arwyddwyd y ffurflen flynyddol gan y cadeirydd a'r clerc

**7. Gohebiaeth -** Clwb Rygbi Caernarfon - gofyn am gyfarfod i drafod cyllido staff HWB. Cynigwyd i gyfrannu £750.00. Cynnig arall oedd i ofyn iddynt ddod i gyfarfod mis Medi i esbonio yn well. Cynnig cyfrannu £1000. Tynnwyd cynnig £750.00 yn nôl ac eilio'r cynnig i gyfrannu £1000.00. Cytunodd pawb yn unfrydol a gofyn i'r clerc gysylltu yn nôl a thalu'r cyfraniad iddynt.

Cafnau blodau Pantglas - yn dilyn gosod cafnau a blodau yn anffodus mae'r cafn wrth y safle bws ei ddwyn. Aaron wedi gofyn i Wil Cae Hetar am bris i angori'r cafnau sydd ar ôl a hefyd i osod bolderau ar y lle glas i stopio pobl parcio.

**8. Materion aelodau** - **Thomas Williams** - angen adio'r arwyddion cyflymder i'r polisi yswiriant. Papur Bro Lleu - gofyn i roi cofnodion yn y papur yn fisol. Diolch am y blodau ym Mhantglas a Pontllyfni gan y cyhoedd a hefyd Pontllyfni wedi altro ar ôl cael toriadau ychwanegol. Edrych ar ôl y diffib yn waith - trafod y bydd cyfarfod yn digwydd gan CC Llanengan i drafod cael person i fynd o gwmpas pob diffib. **Cyng. Dafydd Davies** - adrodd bydd y gwaith ar y llwybr Bodfasarn at y brif ffordd yn cael ei wneud yn fuan. **Eifion Jones** - wal yr ysgol yn dechrau rhoi ac eisiau sylw. Dafydd Davies adrodd ei fod wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd ond eu bod yn dweud ei fod yn iawn ar hyn o bryd a hefyd mai'r tirfeddiannwr sydd yn atebol. Pryderon buasai'r wal yn disgyn a fyddai yn berygl i bobl yn pasio ac i gerbydau sydd wedi parcio yno. Cyng. Dafydd Davies am ddilyn fyny ar hyn. O wal ysgol i'r garej y draen dŵr wedi blocio ac angen ei lanhau.

**9. Materion eraill –** nid odd dim yn codi.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 16 Medi 2025 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….